People's Plan for Nature

# Nodiadau Cyfarfod 1 Grŵp Cynghori Cynulliad Natur y Bobl - Crynodeb

4ydd Hydref 2022

## Crynodeb o'r Cyfarfod

Hwn oedd cyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori Cynulliad Natur y Bobl. Cynhaliwyd y cyfarfod ar-lein gan ddilyn yr agenda ganlynol:

- **Cyflwyniadau a chyfle i ddod i adnabod ei gilydd**
- **Trosolwg o Gynllun Natur y Bobl a Holi ac Ateb**
- **Briffio a thrafodaeth ar gynlluniau'r Sgwrs Genedlaethol sy'n bwydo i Gynulliad Natur y Bobl**
- **Y Camau Nesaf a chyfathrebiadau**
- **Adolygu a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl**
- **Unrhyw fater arall**

### Presennol yn y Cyfarfod

Aelodau'r grŵp cynghori: Aekus Kamboj, Sarah Hendry, Chloe Saltmarsh, Hedd Pugh, Nadeem Perera, Nick Halfhide, Russel De'ath, Meriwether Wilson, Thomasina Miers, John Watkins; Arweinyddion academaidd: Pete Smith; Involve (Cadeirydd); Cynrychiolwyr tîm y prosiect o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, WWF a'r Prosiect Dinasyddiaeth Newydd

### Ymddiheuriadau

Tom Chigbo, Tony Juniper, Sarah Royal, Anurag Deb, Dr Rebecca Lovell, Nathalie Seddon (Arweinydd Academaidd)

## Crynodeb o'r drafodaeth

Rhoddodd y Grŵp Cynghori adborth manwl ar y cynllun drafft ar gyfer y Cynulliad cyffredinol ac ar awgrymiadau cychwynnol ar gyfer cynnwys Penwythnos 1 y bydd tîm y

prosiect yn mynd gyda nhw i weithio ar fersiwn nesaf y dyluniad. Dyma rai themâu a ddeilliodd o'r adborth hwnnw:

- Cefnogaeth gyffredinol i gyfeiriad cyffredinol y Cynulliad
- Cefnogaeth a diddordeb cyffredinol ar gyfer y prosiect
- Anogwyd ystyried y pwyntiau allweddol hyn:
    - A yw'r cynulliad yn ceisio ymdrin â gormod o gynnwys?
    - Ble a sut ydyn ni'n cysylltu trafodaethau yn ôl â'r cyd-destun byd-eang?
    - Bod yn glir ynghylch rhyngddibyniaeth pobl a natur
    - Osgoi tocynistiaeth ynghylch amrywiaeth a chynhwysiant yn y gofod hwn
    - Ystyried a bod yn glir ynghylch lle mae'r hinsawdd yn ffitio yn y trafodaethau hyn
    - Ystyried defnydd tir yn ei gyfanrwydd ac nid dim ond wrth ganolbwyntio ar fwyd
    - Meddwl sut i daro cydbwysedd rhwng canolbwyntio ar weithredoedd unigol a newid systemau a sut mae cwestiynau ynghylch pwy sy'n gyfrifol yn cael eu llunio
    - Sicrhau bod y tensiwn rhwng gwahanol effeithiau newidiadau ar wahanol bobl yn cael ei rannu, er enghraifft, ystyried sut y gellir dod â ffermwyr a gwaith amgylcheddol at ei gilydd
    - Rhoi ystyriaeth ofalus i'r defnydd o iaith a sut i gael pawb i bwynt tebyg o ddealltwriaeth yn ogystal ag osgoi unrhyw farn/dybiaethau gwerth yn yr iaith a ddefnyddiwn
    - Meddwl am brofiad y cyfranogwr a pha mor hyderus/cyfforddus y byddant yn trafod y materion hyn
    - Tryloywder proses yn angenrheidiol, gan gynnwys samplu cyfranogwyr

## Y Camau Nesaf

- Tîm y prosiect i ddosbarthu sleidiau a chwestiynau trafod i gael rhagor o wybodaeth ddilynol.
- Aelodau'r Grŵp Cynghori i rannu bywgraffiadau a lluniau ar gyfer cyhoeddi rhestr aelodau'r Grŵp Cynghori ar wefan y prosiect.
- Tîm y prosiect i fynd ar drywydd hyn gyda rhagor o wybodaeth am y meysydd y gofynnwyd amdanynt, gan gynnwys rhagor o wybodaeth am bartneriaeth 'Planet League'.
- 'Involve' er mwyn cadarnhau bod y Cylch Gorchwyl wedi'i gymeradwyo gan aelodau na allent ymuno â'r cyfarfod.
- Tîm y prosiect i ddosbarthu'r agenda a'r wybodaeth ar gyfer Cyfarfod 2 ymlaen llaw.